Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

AMODAU CONTRACT SAFONOL AR GYFER GWASANAETHAU FEL AROLYGYDD YCHWANEGOL MEWN AROLYGIADAU'N CAEL EU HARWAIN GAN ESTYN YNG NGHYMRU

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

FERSIWN 2

Dyddiad: Chwefror 2008

Estyn

Estyn

AMODAU CONTRACT SAFONOL AR GYFER GWASANAETHAU FEL AROLYGYDD YCHWANEGOL MEWN AROLYGIADAU'N CAEL EU HARWAIN GAN ESTYN YNG NGHYMRU

Gellir amrywio'r Amodau hyn gyda chytundeb ysgrifenedig Estyn yn unig. Ni fydd unrhyw delerau neu amodau a gynigir ar unrhyw adeg gan y Contractiwr yn ffurfio unrhyw ran o'r Contract.

Os oes unrhyw wrthdaro rhwng fersiwn Saesneg a fersiwn Cymraeg y Contract hwn, y fersiwn Saesneg fydd yn cael blaenoriaeth.

TABL CYNNWYS

	Rhan	**Tudalen**
1	Amodau	1
2	Diffiniadau	2
3	Hyd y Contract	4
4	Amrywio'r Gwasanaethau	5
5	Y Gwasanaethau	5
6	Gwrthdaro buddiannau	6
7	Gwahaniaethu	7
8	Statws y Contractiwr	7
9	Diogeledd ac iechyd a diogelwch	7
10	Trosglwyddo ac is-osod	8
11	Sicrhau ansawdd	8
12	Adroddiadau	9
13	Cwynion	9
14	Taliad	10

Estyn

15	Treth ar Werth	11
16	Contractiwr Arall	11
17	Rhoddion llwgr neu daliadau comisiwn	11
18	Cyflafareddu	12
19	Perchenogaeth gwybodaeth	13
20	Indemniad ac yswiriant	15
21	Damwain neu anaf i'r Contractiwr	15
22	Rhwymedigaethau statudol 16	
23	Terfynu	16
24	Adennill symiau sy'n ddyledus	17
25	Rhwymedïau	17
26	Hysbysiadau	18
27	Polisi dim ysmygu	18
28	Toradwyedd	18
29	Gorfodaeth gan drydydd parti	19
30	Y gyfraith a rheoliadau	19

1 AMODAU

1.1 Mae gofyniad llawn Estyn am y Contract ar gyfer Gwasanaethau Arolygydd Ychwanegol wedi'i gynnwys yn y dogfennau a restrir isod:

(a) Gwahoddiad i Dendro, sy'n cynnwys:

- Manyleb – Amserlen Arolygu;
- Tystysgrif Anghydgynllwynio;
- Atodlen Brisiau;
- Tystysgrif Tendro; a
- Rhestr Wirio;

(b) Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a Llawlyfr Arweiniad perthnasol;

(c) arweiniad atodol, polisïau a chyhoeddiadau arolygu a pholisïau a chyhoeddiadau perthnasol eraill yn cael eu darparu Estyn, y gellir eu newid neu'u cyflwyno o dro i dro;

(d) Cynllun Iaith Gymraeg Estyn a'r arweiniad ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg; ac

(e) Amodau'r Contract.

2 DIFFINIADAU

2.1 Yn y Contract hwn, mae'r ymadroddion isod yn golygu'r canlynol:

"Y Ddeddf Cyflafareddu"	mae'r 'Ddeddf Cyflafareddu' yn golygu Deddf Cyflafareddu 1996.
"Tystysgrif Anghydgynllwynio"	mae 'Tystysgrif Anghydgynllwynio' yn golygu'r ddogfen â'r teitl hwnnw sy'n ffurfio rhan o'r Gwahoddiad i Dendro.
"Tystysgrif Tendro"	mae 'Tystysgrif Tendro' yn golygu'r ddogfen â'r teitl hwnnw sy'n ffurfio rhan o'r Gwahoddiad i Dendro.
"Rhestr Wirio"	mae 'Rhestr Wirio' yn golygu'r ddogfen â'r teitl hwnnw sy'n ffurfio rhan o'r Gwahoddiad i Dendro.
"Fframwaith Arolygu Cyffredin"	mae 'Fframwaith Arolygu Cyffredin' yn golygu'r cyfryw fersiwn o'r ddogfen â'r teitl "Y Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" sy'n gyfredol ar ddyddiad yr Arolygiad sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaethau, ac sydd i'w gael ar y Wefan.
"Cwyn"	mae 'Cwyn' yn golygu unrhyw feirniadaeth neu sylw(adau) croes a godir mewn perthynas â'r Arolygiad a / neu'r Contractiwr naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl yr Arolygiad.
"Gweithdrefn Gwyno"	mae 'Gweithdrefn Gwyno' yn golygu'r fersiwn fwyaf diweddar o ddogfen Estyn â'r teitl "Adborth a Chwynion" a gyhoeddir o dro i dro ar y Wefan.
"Amod"	mae 'Amod' yn golygu unrhyw gymal neu baragraff y cyfeirir atynt yn y Contract hwn.
"Amodau Contract"	mae 'Amodau Contract' yn golygu'r telerau a'r amodau a bennir yn y Contract hwn fel y'u diwygir yn ysgrifenedig o dro i dro.
"Contract"	mae'r 'Contract' yn golygu'r Contract rhwng Estyn a'r Contractiwr sy'n cynnwys yr Amodau Contract hyn a'r holl ddogfennau a restrir yn amod 1.1 ac unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y Dystysgrif Tendro a gynhwysir gyda'r Gwahoddiad i Dendro.
"Dyddiad Cwblhau'r Contract"	mae 'Dyddiad Cwblhau'r Contract' yn golygu'r dyddiad y caiff y Gwasanaethau eu cwblhau i fodlonrwydd Estyn neu ddyddiad terfynu'r Contract, os yw'n gynharach.
"Contractiwr"	mae'r Contractiwr yn golygu'r arolygydd ychwanegol y dyfernir y Contract iddo.
"Pris y Contract"	'Pris y Contract' yw'r pris (heb gynnwys TAW) sy'n daladwy i'r Contractiwr gan Estyn o dan y Contract am gyflawni'r Contract yn llawn ac yn briodol gan y Contractiwr, yn unol â'r Gwahoddiad i Dendro.
"Rheolydd Data"	mae 'Rheolydd Data' yn golygu'r un fath a ddiffinnir yn y DDD.
"Prosesydd Data"	mae 'Prosesydd Data' yn golygu'r un fath a ddiffinnir yn y DDD.
"Dogfen"	mae 'Dogfen' yn golygu unrhyw lythyr, ffurflen, adroddiad, set ddata neu gydosodiad arall o wybodaeth ysgrifenedig neu ddarluniadol mewn unrhyw gyfrwng a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Contract hwn.
"DDD"	mae 'DDD' yn golygu Deddf Diogelu Data 1998.

“Datgeliad Uwch”	mae ‘datgeliad uwch’ yn golygu proses o gynnal lefel ragnodedig o wiriadau ar hanes blaenorol unigolyn gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol i gynorthwyo Estyn i nodi’r cyfryw unigolion a all, oherwydd eu hanes blaenorol, gael eu hystyried yn anaddas i’w cyflogi i ddarparu’r Gwasanaethau.
“Sefydliad”	mae ‘sefydliad’ yn golygu’r sefydliad addysg sydd i’w arolygu fel a bennir yn y Tendr.
“Estyn”	mae ‘Estyn’ yn golygu Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
“Deddf RhG”	mae ‘Deddf RhG’ yn golygu Deddf Rhyddid Gwybodaeth, 2000.
“Arweiniad”	mae ‘Arweiniad’ yn golygu’r ystyr a bennir yn Amod 1.1 (c) uchod.
“PAEM”	mae ‘PAEM’ yn golygu Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
“AEM”	mae “AEM” yn golygu Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
“Cod Gwybodaeth”	nodir ystyr ‘Cod Gwybodaeth’ yn 19.9 isod.
“Arolygiad”	mae ‘Arolygiad’ yn golygu arolygiad o Sefydliad fel sy’n ofynnol gan y Fframwaith Arolygu Cyffredin i’w gynnal gan Estyn, gan gynnwys hefyd y gweithgareddau craidd a’r gweithgareddau cysylltiedig hynny cyn, yn ystod ac yn dilyn presenoldeb yn y Sefydliad ei hun.
“Dogfennau Arolygu”	mae ‘Dogfennau Arolygu’ yn golygu unrhyw ddogfen, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i’r Dogfennau a’r fersiynau drafft o’r Adroddiad a grëir, a gynhyrchir neu a geir mewn cysylltiad â’r Arolygiad o dan y Contract hwn, p’un a ydynt wedi’u cyflwyno i Estyn ai peidio.
“Dyddiad yr Arolygiad”	mae ‘Dyddiad yr Arolygiad’ yn golygu’r dyddiad y bydd y Tîm Arolygu yn mynychu’r Sefydliad at ddibenion arolygu’r dysgu sy’n cael ei ddarparu yno fel a ddatgenir yn y Gwahoddiad i Dendro.
“Y Tîm Arolygu”	mae’r ‘Tîm Arolygu’ yn golygu’r AEMau, arolygwyr ychwanegol ac Aseswyr Cymheiriaid sy’n cynnal yr Arolygiad fel a ddisgrifir uchod.
“Tymor yr Arolygiad”	mae ‘Tymor yr Arolygiad’ yn golygu’r tymor academaidd y cynhelir yr Arolygiad ynddo.
“Gwahoddiad i Dendro”	nodir ystyr ‘Gwahoddiad i Dendro’ yn Amod 1.1(a) uchod.
“Deddfwriaeth”	mae ‘Deddfwriaeth’ yn golygu unrhyw Ddeddf Seneddol y DU neu Ewropeaidd neu is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr adran 21(1) Deddf Ddehongli 1978 neu offeryn statudol.
“Parti”	mae “Parti” yn golygu naill ai Estyn neu’r Contractiwr, a bydd “Partïon” yn cael eu dehongli’n unol â hynny.
“Asesydd Cymheiriaid”	mae ‘Asesydd Cymheiriaid’ yn golygu person yn cyflawni’r rôl a ddisgrifir yn y Llawlyfrau Arweiniad.
"Data Personol"	mae ‘Data Personol’ yn golygu hynny a ddiffinnir yn y DDD sy’n cael ei gyflenwi i’r Contractiwr gan Estyn neu a geir gan y Contractiwr tra’n cyflawni’r Gwasanaethau.

“Atodlen Brisiau”	mae ‘Atodlen Brisiau’ yn golygu’r ddogfen â’r teitl hwnnw sy’n ffurfio rhan o’r Gwahoddiad i Dendro.
“Adroddiad”	Mae ‘Adroddiad’ yn golygu’r ddogfen electronig sy’n cael ei chwblhau gan y Contractiwr ar ôl yr Arolygiad, yn pennu canfyddiadau’r Arolygiad, ac sy’n cael ei gyrru ymlaen gan Estyn at y Sefydliad.
“Arolygydd Cofnodol”	mae ‘Arolygydd Cofnodol’ yn golygu’r AEM sy’n arwain yr Arolygiad.
“Gwasanaethau”	mae’r ‘Gwasanaethau’ yn golygu’r gwasanaethau sydd i’w darparu fel a bennir yn y Contract.
“Manyleb”	Mae ‘Manyleb’ yn golygu’r fanyleb ar gyfer y Gwasanaethau fel y nodir yn y Gwahoddiad i Dendro fel a ddiwygir yn ysgrifenedig gan Estyn o dro i dro, os hyw hynny’n ofynnol.
“Tendr”	mae ‘Tendr’ yn golygu dogfennau’r tendr y mae Estyn yn eu cael gan y Contractiwr mewn perthynas â darparu’r Gwasanaethau.
“Gwefan”	mae “Gwefan” yn golygu gwefan Estyn yn www.estyn.gov.uk.
“Cynllun Iaith Gymraeg”	“Cynllun Iaith Gymraeg” yw’r fersiwn cyfredol pan gynhelir yr Arolygiad o’r ddogfen â’r teitl hwnnw, sydd i’w weld ar Wefan Estyn.
“Diwrnod Gwaith”	mae “Diwrnod Gwaith” yn golygu unrhyw ddiwrnod heblaw am ddydd Sadwrn, dydd Sul neu Gŵyl y Banc.

2.2 Bydd geiriau sy’n dynodi un rhyw yn unig yn cael eu dehongli i ddynodi’r rhyw arall a bydd cyfeiriadau at bersonau yn cynnwys cwmnïau.

2.3 Mae’r unigol yn cynnwys y lluosog ac fel arall.

2.4 Ni fydd y penawdau i’r Amodau hyn yn effeithio ar eu dehongliad.

2.5 Mae unrhyw gyfeiriad at bersonau yn cynnwys personau, busnesau, partneriaethau, cwmnïau, corfforaethau, cymdeithasau, cyfundrefnau, llywodraethau, gwladwriaethau, sefydliadau ac ymddiriedolaethau naturiol (ym mhob achos pa un a oes ganddynt bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio).

2.6 Dylai unrhyw gyfeiriad at Ddeddfwriaeth, darpariaeth statudol neu is-ddeddfwriaeth (ac eithrio lle mae’r cyd-destun yn gofyn fel arall) gael ei ddehongli fel cyfeiriad at y gyfryw ddeddfwriaeth fel y’i diwygiwyd ac sydd mewn grym o dro i dro ac at unrhyw ddeddfwriaeth sydd (naill ai gydag addasiad neu heb addasiad) yn ailddeddfu, yn atgyfnerthu neu’n deddfu ar ffurf a ail-ysgrifennwyd unrhyw ddeddfwriaeth felly.

2.7 Yn achos unrhyw wrthdaro rhwng unrhyw ddarpariaeth yn yr Amodau hyn, y Gwahoddiad i Dendro neu’r Tendr y drefn cyffredinolrwydd fydd (i) yr Amodau hyn; (ii) y Gwahoddiad i Dendro, (iii) y Tendr.

3 HYD Y CONTRACT

3.1 Bydd y ddarpariaeth Gwasanaethau gan y Contractiwr yn dechrau ar y dyddiad y mae Estyn yn dyfarnu'r Contract a bydd yn dod i ben ar Ddyddiad Cwblhau'r Contract, yn amodol ar Amod 23 (Terfynu).

3.2 Bydd Dyddiad yr Arolygiad a hyd yr Arolygiad fel hynny a nodir yn y Gwahoddiad i Dendro.

3.3 Ni fydd terfynu'r Contract am ba reswm bynnag yn effeithio ar unrhyw rwymedigaethau neu hawliau a gynhwysir mewn unrhyw amod yn y Contract a gall barhau ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Contract, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Amodau 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 25, 26, 27, 28, 29 a 30 a fydd yn parhau â grym ac effaith lawn.

4. AMRYWIO'R GWASANAETHAU

4.1 Mae Estyn yn cadw'r hawl trwy hysbysu'r Contractiwr yn ysgrifenedig i amrywio neu addasu gofynion y Gwasanaethau. Bydd unrhyw amrywiad i Bris y Contract neu Ddyddiad Cwblhau'r Contract sy'n deillio oherwydd addasiad felly yn cael ei gytuno rhwng y Partïon. Os methir â chytuno, caiff y mater ei benderfynu trwy gyflafareddu yn unol â darpariaethau Amod 18 isod.

5 Y GWASANAETHAU

5.1 Mae Estyn yn penodi'r Contractiwr i ddarparu'r Gwasanaethau:

5.1.1 yn brydlon ac mewn modd proffesiynol a chwrtais er mwyn adlewyrchu a hyrwyddo delwedd Estyn;

5.1.2 yn gwbl unol â darpariaethau'r Contract; ac

5.1.3 yn unol â phob Deddfwriaeth, Llawlyfrau Arweiniad ac Arweiniad cyffredinol perthnasol.

5.2 Mae'r Contractiwr yn cadarnhau ei fod wedi deall natur a graddfa'r Gwasanaethau sydd i'w cyflawni ac wedi'i fodloni ei hun mewn perthynas â'r holl faterion sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau a'r Sefydliad. Bydd y Contractiwr yn indemnio Estyn am unrhyw gostau neu dreuliau a geir o ganlyniad i fethiant y Contractiwr i ymgyfarwyddo â'r Sefydliad yn unol â'r Amod hwn.

5.3 Mae'r Contractiwr yn cadarnhau ei fod wedi'i fodloni ei hun cyn tendro ynghylch cywirdeb a digonedd Pris y Contract a fydd yn cwmpasu ei holl rwymedigaethau o dan y Contract ac mae'n cytuno yn unol ag Amod 4.1 na fydd unrhyw gostau, taliadau na threuliau ychwanegol yn cael eu talu am ddarparu'r Gwasanaethau.

5.4 Bydd y Contractiwr yn cyflawni'r Gwasanaethau yn gwbl unol â'r Contract a bydd yn cydymffurfio â ac yn cadw'n gyfan gwbl at unrhyw gyfarwyddiadau neu gyfarwyddyd gan Estyn ar unrhyw faterion yn gysylltiedig â'r Contract neu'n ymwneud â'r Contract. Bydd y Contractiwr yn cymryd cyfarwyddiadau a chyfarwyddyd gan PAEM a'r rheiny sydd wedi'u hawdurdodi i roi cyfarwyddiadau a chyfarwyddyd ar ei rhan ("Person Awdurdodedig") yn unig. At ddibenion y cymal hwn, bydd Person Awdurdodedig yn golygu pennaeth cangen Estyn neu reolwr gwasanaethau busnes gwasanaethau corfforaethol, y swyddog arwain (contractau) a'r arweinydd tîm contractau, neu berson(au) arall sydd wedi'i awdurdodi'n briodol y gall Estyn o dro i dro hysbysu'r Contractiwr amdanynt yn ysgrifenedig.

5.5 Ni fydd y Contractiwr:

(a) yn gwneud unrhyw gyhoeddiad na'n creu unrhyw gyhoeddusrwydd mewn perthynas ag Estyn neu'r Gwasanaethau heb gytundeb ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw;

(b) wrth ddarparu neu mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau, yn cynnig nac yn marchnata gwasanaethau eraill i unrhyw bersonau; a/neu

(c) yn hysbysebu na'n cyhoeddi ffaith gwaith y Contractiwr i Estyn mewn unrhyw lenyddiaeth marchnata neu hyrwyddo mewn cysylltiad ag unrhyw fusnes y mae'r Contractiwr yn ymwneud ag ef, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, heb gytundeb ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw.

5.6 Bydd amser ar gyfer cyflawni'r Gwasanaethau yn hanfodol.

6 GWRTHDARO BUDDIANNAU

6.1 Bydd y Contractiwr yn hysbysu Estyn yn ysgrifenedig yn ddi-oed cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl yn yr amgylchiad(au) am unrhyw wrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau potensial neu unrhyw amgylchiad y gellir ei weld yn rhesymol sy'n peri gwrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau potensial ("gwrthdaro buddiannau canfyddedig") mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau, a fydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

(a) ymglymiad cyhoeddus neu breifat ym materion y Sefydliad y mae a wnelo'r Gwasanaethau â hwy gan y Contractiwr, a/neu unrhyw briod neu aelod teulu neu ffrind unrhyw un o'r Contractiwr y soniwyd amdano; ac

(b) ymglymiad cyhoeddus neu breifat gan y Contractiwr ym materion unrhyw sefydliad yr ystyria Estyn sy'n cystadlu â'r Sefydliad y mae a wnelo'r Gwasanaethau ag ef.

At ddiben y cymal 6 hwn, bydd gwrthdaro buddiannau:

(a) os gofynnir i'r Contractiwr sy'n berson a gyflogir gan AALl neu gan gwmni

neu sefydliad arall a reolir neu a ariennir gan AALl i gynnal Arolygiad yn (1) Sefydliad yr AALl hwnnw neu (2) Sefydliad lle mae plant o fewn yr AALl hwnnw yn cael eu haddysgu o dan drefniadau gydag AALl arall, oni phenna'r Contractiwr i fodlonrwydd rhesymol Estyn bod mesurau priodol ar waith i warantu annibyniaeth y Contractiwr yn cyflawni ei swyddogaeth fel Arolygydd; ac

(b) os oes unrhyw briod neu aelod o deulu neu ffrind y Contractiwr wedi gweithio ar unrhyw adeg i'r Sefydliad.

6.2 Os yw Estyn yn ei farn resymol yn credu bod unrhyw ddigwyddiad, amgylchiad neu gysylltiad yr hysbysir amdanynt gan y Contractiwr yn unol ag Amod 6.1 uchod neu unrhyw ddigwyddiad, amgylchiad neu gysylltiad arall y daw Estyn yn ymwybodol ohonynt yn peri neu y gallant beri gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, potensial neu ganfyddedig, bydd hawl gan Estyn i derfynu'r Contract ar unwaith heb achosi unrhyw atebolrwydd pa beth bynnag.

6.3 Mae'r Contractiwr yn gwarantu nad oes telerau datganedig mewn unrhyw gontract neu drefniant gydag unrhyw drydydd parti sy'n ei atal neu a fwriedir i'w atal rhag gwneud y Contract hwn, ac nad yw trwy wneud y Contract hwn yn torri unrhyw ddyletswydd didwylledd neu ffyddlondeb ymhlyg. Mae'r Contractiwr yn ymrwymo i hysbysu Estyn os yw'n ymwybodol o unrhyw reswm, pam na ddylai ymgymryd â'r Arolygiad.

7 GWAHANIAETHU

7.1 Ni fydd y Contractiwr yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas darpariaethau Deddf Cysylltiadau Hiliol 2000 (Diwygio), Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1986, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005 a Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oed) 2006 nag unrhyw addasiadau statudol, ailddeddfiad neu ddiwygiad iddynt o dro i dro. Bydd y Contractiwr yn cymryd pob cam rhesymol i gadw at ddarpariaethau'r Amod hwn.

8 STATWS Y CONTRACTIWR

8.1 Mae Estyn a'r Contractiwr yn cytuno nad oes dim yn y Contract hwn sy'n creu (neu wedi'i fwriadu i greu) perthynas o gyflogaeth rhyngddynt. Mae'r Contractiwr yn cael ei gyflogi fel contractiwr hunangyflogedig sy'n cyflawni contract ar gyfer gwasanaethau.

8.2 Ni fydd y Contractiwr yn disgrifio'i hun mewn modd, nac yn dweud na gwneud unrhyw beth a all arwain personau i gredu bod y Contractiwr yn asiant Estyn neu fod Estyn yn gyfrifol am y gweithredoedd neu atebolrwydd gan y Contractiwr.

8.3 Ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn rhoi unrhyw atebolrwydd ar Estyn mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a achosir gan y Contractiwr i unrhyw berson neu

endid arall, ond ni chymerir y bydd hyn yn eithrio na'n cyfyngu ar unrhyw atebolrwydd gan Estyn a all godi oherwydd torri'r Contract hwn neu unrhyw esgeulustod ar ran Estyn.

8.4 Bydd y Contractiwr yn sicrhau ei fod, tra'n darparu'r Gwasanaethau ac wrth ohebu gydag Estyn, yn gwneud hynny bob amser yn enw'r endid cyfreithiol yn yr enw y cyflwynodd ei dendr i ddarparu'r Gwasanaethau.

9 DIOGELEDD AC IECHYD A DIOGELWCH

9.1 Mae'r Contractiwr yn cytuno y bydd ef yn bersonol yn darparu'r Gwasanaethau gyda gofal a medr rhesymol a hyd eithaf ei allu ac y bydd bob amser yn cydweithredu gyda chynlluniau a chyfarwyddiadau AEM ac y bydd yn cydymffurfio â'r holl Ganllawiau perthnasol a'r Arweiniad Arolygu.

9.2 Bydd y Contractiwr yn darparu, ar ei gost ei hun, y cyfryw gyfleusterau a chyfarpar y gall fod angen arno er mwyn cyflawni'r Gwasanaethau yn briodol. Bydd hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) gliniadur, cyfeiriad e-bost a ffôn symudol. Cyfrifoldeb y Contractiwr yw darparu, ar ei gost ei hun, pob cyfarpar diogelwch y mae ei angen arno i gyflawni'r Gwasanaethau yn ddiogel a chan gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol.

9.3 Bydd y Contractiwr yn gyfrifol am ddilyn yr holl ragofalon diogelwch sy'n angenrheidiol i'w amddiffyn gan gynnwys yr holl ragofalon y mae'n ofynnol i'w cymryd gan unrhyw Ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd y Contractiwr yn cydymffurfio'n llawn â'r Sefydliad er mwyn sicrhau cyflawni'r rhwymedigaethau hyn yn briodol.

9.4 Bydd y Contractiwr yn meddu ar wiriad "Datgeliad Uwch"' gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi'i gynnal nid mwy na thair (3) blynedd cyn Dyddiad yr Arolygiad. Os yw'r Contractiwr yn methu bodloni gofyniad Amod 9.4 hwn i fodlonrwydd Estyn, yna bydd hawl gan Estyn i derfynu'r Contract ar unwaith heb unrhyw atebolrwydd pa beth bynnag.

10. TROSGLWYDDO AC IS-OSOD

10.1 Bydd y Contractiwr yn darparu'r Gwasanaethau yn bersonol ac ni fydd yn rhoi, yn bargeinion, yn neilltuo, yn newyddu nac yn is-osod neu fel arall yn cael gwared ar y Contract neu unrhyw ran ohono.

11 SICRHAU ANSAWDD

11.1 Bydd Estyn yn monitro ac yn asesu ansawdd y Gwasanaethau a ddarperir gan y Contractiwr a fydd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ymweliadau â'r Sefydliad yn ystod yr Arolygiad i fonitro darpariaeth y Gwasanaethau.

11.2 Bydd y Contractiwr yn cydweithredu'n llawn ag unrhyw AEM neu unrhyw archwilwyr statudol Estyn, eu hasiantiaid a benodwyd yn briodol ac aelodau staff enwebedig o Estyn sydd wedi'u penodi i ymgymryd ag ymweliadau monitro yn unol ag Amod 11.1 uchod, gan gynnwys sicrhau y rhoddir ymatebion prydlon i bob cais am wybodaeth. Bydd y cymorth yn ymestyn i ddarparu ar gais yr holl ddogfennaeth berthnasol (ym marn Estyn) i'w harchwilio a phresenoldeb mewn unrhyw ac ym mhob cyfarfod sy'n ymwneud â'r Arolygiad boed yn y Sefydliad neu yn rhywle arall.

11.3 Yn dilyn y cyfryw fonitro ac asesu yn unol ag Amod 11.1 uchod, bydd Estyn yn hysbysu'r Contractiwr ynghylch y modd y mae'r ddarpariaeth Gwasanaethau gan y Contractiwr yn bodloni gofynion Estyn fel a nodir yn yr Arweiniad.

11.4 Lle mae Estyn yn penderfynu ymgymryd ag arolwg o dystiolaeth, bydd y Contractiwr ar gais yn anfon, neu'n trefnu i anfon â llaw neu drwy ddosbarthiad dosbarth cyntaf wedi'i gofnodi, i'w harchwilio y cyfryw Ddogfennau Arolygu neu dystiolaeth arall y gall Estyn ofyn amdani. Dylid anfon y cyfryw Ddogfennau Arolygu neu dystiolaeth arall yn ddi-dâl at Estyn, ar eu ffurf wreiddiol, a gall Estyn eu cadw'n barhaol neu dros dro ar ei ddisgresiwn ef yn unig.

12 ADRODDIADAU

12.1 Bydd y Contractiwr (ar ei draul ei hun) yn darparu i Estyn:

(a) copi electronig o'r Adroddiad mewn perthynas â'r materion sy'n destun ei ran ef o'r arolygiad ar ffurf Microsoft Word; a

(b) phob dogfennaeth a thystiolaeth gysylltiedig arall a gesglir gan y Contractiwr, cyn, yn ystod ac ar ôl yr Arolygiad.

12.2 Rhaid i strwythur a chynnwys yr Adroddiad fod i safon sy'n gofyn am waith ychwanegol lleiaf posibl gan Estyn a chydymffurfio â hynny a ddarperir gan dempled priodol Estyn, a rhaid i'r arddull fod yn unol ag arweiniad ysgrifennu Estyn, fel a gyhoeddir ar y Wefan o dro i dro.

12.3 Daw'r ffeiliau/CD romiau sy'n cynnwys yr Adroddiad, wrth eu derbyn, yn eiddo Estyn. Bydd y Contractiwr, yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol yn anfon copi electronig o'r adroddiad a'r holl ddogfennaeth a thystiolaeth berthnasol arall ymlaen at Estyn.

12.4 Bydd y Contractiwr yn gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth a gyflenwir yn unol ag Amod 12.1 uchod yn gyflawn, yn gywir ac yn rhydd o gamgymeriad (gan gynnwys lle bo'n gymwys firysau meddalwedd).

12.5 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy'n berchen i Sefydliad yn cael ei ddychwelyd i'r Sefydliad cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr Arolygiad ond beth bynnag, cyn pen 8 (wyth) wythnos o'r Arolygiad.

13 CWYNION

13.1 Bydd y Contractiwr yn sicrhau ei fod neu ei bod yn gyfarwydd â Gweithdrefn Gwyno Estyn ar y Wefan. Bydd y Contractiwr yn sicrhau y rhoddir cyfle teg i unrhyw berson sy'n ymwneud â neu yr effeithir arno/arni gan yr Arolygiad i godi materion yn ymwneud â'r Arolygiad tra'i fod/bod yn y Sefydliad.

13.2 Pan fydd cwyn yn cael ei derbyn gan y Contractiwr, bydd y Contractiwr yn ceisio datrys y Gŵyn ar unwaith.

.

13.3 Os nad yw'r Contractiwr yn gallu datrys y gŵyn ar unwaith bydd y Contractiwr yn hysbysu'r Arolygydd Cofnodol am y Gŵyn a'r mesurau a gymerwyd i geisio ei datrys.

13.4 Bydd y Contractiwr (ar ei draul ei hun) yn cydymffurfio'n llawn ag Estyn mewn unrhyw ymchwiliad a gynhelir gan Estyn i unrhyw Gŵyn, a bydd heb gyfyngiad (ar ei draul ei hun) yn darparu'r cyfryw gymorth y gall Estyn ofyn amdano, gan gynnwys mynychu cyfweliadau. Bydd y Contractiwr yn gwneud ei orau i ymateb yn llawn i unrhyw ohebiaeth ac yn darparu i Estyn unrhyw wybodaeth y gofynna Estyn amdani neu a all fod yn ei feddiant neu meddiant cyn pen 5 (pump) diwrnod gwaith o dderbyn cais Estyn.

13.5 Bydd y Contractiwr yn sicrhau ei fod yn cadw'r holl fanylion a gwybodaeth yn ymwneud â'r Cwynion yn gyfrinachol.

13.6 Mae'r Contractiwr yn cydnabod rhwymedigaethau cyfreithiol Estyn a nodir yn Amod 19 ac mae'n derbyn na all Estyn bob amser gydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfrinachedd cyffredinol a gynhwysir yng Ngweithdrefnau Cwyno Estyn. Bydd Estyn, pan fydd o'r farn ei bod yn ymarferol i wneud hynny, yn hysbysu ac yn ymgynghori â'r holl unigolion sydd wedi darparu gwybodaeth cyn datgelu'r cyfryw wybodaeth.

14 TALIAD

14.1 Oni nodir yn wahanol yn y Gwahoddiad i Dendro, bydd taliad yn ddyledus cyn pen 30 diwrnod o dderbyn a chytuno anfonebau, yn cael ei gyflwyno'n fisol fel ôl-daliad, am waith a gwblhawyd i fodlonrwydd Estyn. Rhaid i'r anfoneb fod am Bris y Contract oni chytunwyd fel arall gan Estyn. Bydd pob anfoneb yn dangos y manylion canlynol yn glir:

(a) enw, cyfeiriad a rhif cod y Contractiwr;

(b) enw'r Sefydliad/ardal a arolygwyd;

(c) dyddiad yr Arolygiad;

(d) rhif yr anfoneb a dyddiad yr anfoneb;

(e) Pris y Contract;

(f) enw a chost unrhyw eitemau/taliadau ychwanegol a gytunwyd, os oes rhai;

(g) TAW lle bo'n gymwys a Rhif Cofrestru TAW;

(h) cyfarwyddiadau arbennig ar gyfer talu; ac

(i) enw cyswllt a rhif ffôn ar gyfer ymholiadau.

14.2 Caiff holl daliadau Estyn eu gwneud drwy BACSTEL, sy'n galluogi gwneud taliadau'n uniongyrchol i gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu'r Contractiwr. Bydd y Contractiwr yn gyfrifol am ddarparu manylion banc (ac unrhyw newidiadau i'r manylion) i Estyn at y diben hwn. Dylid dangos Treth ar Werth, lle bydd yn berthnasol, ar wahân ar bob anfoneb fel taliad net yn gyfan gwbl.

14.3 Bydd taliad yn amodol ar y Gwasanaethau'n cael eu cyflwyno gan gynnwys yr Adroddiad a bod y wybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu gan y Contractiwr yn unol ag Amod 12.2 uchod yn gyflawn, yn gywir a heb gamgymeriad, a'u bod yn bodloni safonau ansawdd Estyn ar gyfer y Gwasanaethau.

14.4 Ac eithrio lle mae cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Estyn, ni fydd unrhyw daliad yn cael ei wneud am waith a gyflawnwyd gan y Contractiwr sydd y tu allan i gwmpas y Gwasanaethau neu ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Contract neu ddyddiad terfynu'r Contract (os yw'n gynharach).

14.5 Bydd y Contractiwr yn gyfrifol am adrodd i Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi a Chyllid y Wlad am yr holl drethi a thollau perthnasol ar incwm neu wariant.

15 TRETH AR WERTH

15.1 Bydd Estyn yn talu i'r Contractiwr, yn ychwanegol at Bris y Contract o'i hawlio'n gyfreithlon, yn ystod cyfnod arferol busnes, swm sy'n gyfartal i unrhyw Dreth ar Werth trethadwy ar werth cyflenwi'r Gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r Contract.

15.2 Bydd unrhyw anfoneb neu gais arall am daliad arian sy'n ddyledus i'r Contractiwr o dan y Contract, os yw'r Contractiwr yn endid trethadwy, ar yr un ffurf ac yn cynnwys yr un wybodaeth â phe bai'n anfoneb treth at ddiben Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Cyllid 1972.

16 CONTRACTIWR ARALL

16.1 Mae Estyn yn cadw'r hawl heb fod yn atebol i'r Contractiwr i ddefnyddio Contractiwr gwahanol ar unrhyw adeg tra bod y Contract yn gyfredol oherwydd anallu'r

Contractiwr i ddarparu'r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt am unrhyw reswm y tu allan i reolaeth Estyn.

17 RHODDION LLWGR NEU DALIADAU COMISIWN

17.1 Ni fydd y Contractiwr, heb ganiatâd ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw, yn derbyn unrhyw rodd, comisiwn neu fudd neu gymhelliant ariannol arall, ac ni fydd ychwaith yn derbyn unrhyw letygarwch ymhellach na lletygarwch ar lefel gymedrol a chonfensiynol, gan y Sefydliad neu unrhyw berson arall wrth ddarparu'r Gwasanaethau. Bydd y Contractiwr yn ddi-oed yn rhoi i Estyn manylion unrhyw rodd neu letygarwch anghymesur a gynigir iddo. Bydd y Contractiwr, hefyd, yn cynnig talu am unrhyw luniaeth a ddarperir gan Sefydliadau yn ystod yr Arolygiad.

17.2 Ni fydd y Contractiwr:

(a) yn cynnig na rhoi, na chytuno i roi, i unrhyw berson yn Estyn neu yng nghyflogaeth y Sefydliad neu berson a gyflogir fel arall yn y Sefydliad, unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliant neu wobr am wneud neu ymatal rhag gwneud neu am fod wedi gwneud neu ymatal rhag gwneud unrhyw weithred mewn perthynas ag ennill neu weithredu'r Contract hwn neu unrhyw gontract arall i Estyn neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafr neu anfri tuag at unrhyw berson mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw gontract arall gydag Estyn neu unrhyw gleient tebyg; a/neu ni fydd

(b) yn gwneud y Contract hwn nag unrhyw gontract arall gydag Estyn yng nghyswllt yr hyn y mae comisiwn wedi ei dalu neu wedi ei gytuno i'w dalu ganddo ef neu ar ei ran, neu hyd y gŵyr amdano, oni bai cyn y contract bod manylion unrhyw gomisiwn o'r fath a thelerau ac amodau unrhyw gytundeb am daliad o hynny wedi eu datgelu yn ysgrifenedig i Estyn.

17.3 Bydd unrhyw achos o dorri'r Amod hwn gan y Contractiwr neu gomisiynu unrhyw drosedd gan y Contractiwr:

17.3.1 o dan y Ddeddf Atal Llygredigaeth, 1906 i 1916, neu o dan Deddfwriaeth sy'n creu troseddau mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus neu yn y gyfraith gyffredin mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus mewn perthynas â'r Contract, unrhyw gytundeb arall gyda'r Awdurdod neu unrhyw Gontract arall ar gyfer Gwasanaeth Ei Mawrhydi; neu

17.3.2 sy'n twyllo, yn ceisio twyllo neu'n cynllwynio i dwyllo Estyn, PAEM neu AEM,

yn rhoi hawl i Estyn derfynu'r Contract ar unwaith ac adfer gan y Contractiwr swm unrhyw golled yn sgil terfyniad felly a/neu adfer gan y Contractiwr swm neu werth unrhyw rodd, cydnabyddiaeth neu gomisiwn felly.

18 CYFLAFAREDDU

18.1 Ac eithrio Amod 13 (Cwynion) uchod, bydd gwahaniaethau neu gwestiynau rhwng y Partïon mewn perthynas ag unrhyw fater neu beth sy'n codi o'r Contract neu'n ymwneud â'r Contract, ac eithrio mater neu beth y mae penderfyniad Estyn yn eu cylch o dan y Contract yn derfynol ac yn bendant ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth arbennig ar gyfer cyflafareddu yn cael ei gwneud yn rhywle arall yn y Contract, yn cael eu cyfeirio at gyflafareddiad cyflafareddwr unigol i'w benodi yn unol ag Adran 16(3) y Ddeddf Cyflafareddu, y dynodir drwy hyn mai canolfan cyflafareddu felly yw Caerdydd, Cymru, ac mae'r Partïon yn cytuno, yn amodol ar ddarpariaethau Adran 58(2) Deddf Cyflafareddu 1996, y bydd penderfyniad y cyfryw gyflafareddwr yn derfynol ac yn rhwymol ar y Partïon.

18.2 Os yw'r Partïon yn methu gwneud y penodiad yn unol ag Adran 16(3) y Ddeddf Cyflafareddu bydd y penodiad yn cael ei wneud gan Lywydd (neu os yw'r Llywydd yn amharod, yn analluog neu nad yw ar gael, yr Is-Lywydd) am y tro Cymdeithas y Gyfraith.

18.3 Ystyrir bod y cyflafareddiad wedi dechrau at y dibenion a nodir yn Adran 14(1) y Ddeddf Cyflafareddu pan fydd un Parti yn anfon hysbysiad ysgrifenedig at y Parti arall yn datgan y dylai'r mater gael ei gyfeirio at gyflafareddiad.

18.4 Bydd y cyflafareddwr yn penderfynu'r anghydfod yn unol â chyfreithiau cadarnhaol Cymru a Lloegr.

18.5 Bydd unrhyw gostau a geir yn sgil y cyfryw gyflafareddiad yn cael eu talu yn ôl cyfarwyddyd y cyflafareddwr. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae costau sy'n ymwneud â'r cyflafareddiad yn cynnwys cost weinyddol resymol yr amser a dreulir yn ymchwilio i'r mater a'r holl amser a'r costau sy'n ymwneud â pharatoi ar gyfer a chynnal y cyflafareddiad.

19 PERCHENOGAETH GWYBODAETH

19.1 Ni fydd y Contractiwr wrth ddarparu'r Gwasanaethau a rhwymedigaethau eraill yn unol â'r Contract yn torri unrhyw hawlfraint neu hawliau perchnogol eraill unrhyw drydydd parti a bydd y Contractiwr yn indemnio Estyn yn erbyn pob gweithred, hawliad, cost a thraul (gan gynnwys costau cyfreithiol) y gall Estyn neu'r Goron eu dioddef neu eu cael o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri'r Amod hwn.

19.2 Mae'r Contractiwr yn aseinio i Estyn yr holl hawlfraint, hawliau yn natur yr hawlfraint, hawl dylunio, hawliau cyfrinachedd a hawliau eiddo deallusol eraill ledled y byd (breiniedig, dyfodol a dichonadwy, ac yn cynnwys unrhyw adnewyddiadau, estyniadau, dychweliadau, a hawliau gweithredu cronedig) ("yr Hawliau") mewn ac i unrhyw Ddogfennau neu Ddogfennau Arolygu ("y Deunydd"). Rhaid dinistrio'n

ddiogel unrhyw gopïau o'r Deunydd y gall y Contractiwr eu cadw 90 (naw deg) diwrnod ar ôl derbyn taliad terfynol o dan y Contract hwn. Ni fydd y Contractiwr yn cadw unrhyw gopïau pellach o'r Deunydd.

19.4 Ni fydd y Contractiwr (neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Contract hwn) ar unrhyw adeg yn cysylltu neu'n ymateb i gyswllt gan unrhyw faes y cyfryngau ynghylch y Gwasanaethau neu rwymedigaethau eraill y Contractiwr a ddarperir o dan y Contract.

19.5 Ni fydd y Contractiwr (neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Contract hwn) ar unrhyw adeg yn atgynhyrchu neu'n lledaenu unrhyw Ddeunydd neu wybodaeth a gafwyd yn ystod y Contract i unrhyw berson neu gorff arall heb ymgynghori ymlaen llaw gydag Estyn a chaniatâd ysgrifenedig Estyn. Ni fydd y Contractiwr (neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Contract hwn) ychwaith yn defnyddio'r cyfryw Ddeunydd neu wybodaeth i ddatblygu unrhyw ddeunyddiau pellach neu at unrhyw ddiben arall pa beth bynnag heb ymgynghori ymlaen llaw gydag Estyn a chaniatâd ysgrifenedig Estyn.

19.6 Mae'r Contractiwr yn gwarantu i beidio â datgelu na defnyddio unrhyw wybodaeth am staff neu ddysgwyr yn y Sefydliad nac am dendrau neu gontractwyr i'r Sefydliad i unrhyw berson neu gorff arall ac eithrio hynny sy'n angenrheidiol o dan Amodau'r Contract neu fel arall a ragnodir gan Ddeddfwriaeth.

19.7 Mewn perthynas â phob Data Personol, Estyn fydd y Rheolydd Data a'r Contractiwr fydd y Prosesydd Data. Mae'r Contractiwr yn gwarantu ac yn ymrwymo mewn perthynas â'r Data Personol:

(a) y bydd y Data Personol yn cael ei brosesu yn unol â gofyniad y Contract hwn yn unig, neu unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig Estyn mewn perthynas â'r cyfryw Ddata Personol fel y cyhoeddir gan Estyn o dro i dro;

(b) bydd y Contractiwr yn cydymffurfio ar bob cyfrif â gofynion Egwyddor Saith Diogelu Data Personol, fel a bennir yn Atodlen 1 y DDD, fel pe bai yn Reolydd Data; a

(c) bydd y Contractiwr yn hysbysu'r unigolion sy'n destun y Data Personol mai Estyn yw'r Rheolydd Data, ac am y dibenion y bydd y Data Personol sy'n ymwneud â hwy yn cael ei brosesu.

19.8 Mae'r Contractiwr yn cydnabod rhwymedigaeth Estyn i gydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth ("y Cod Gwybodaeth") a'i ymrwymiad i fod yn agored a chaniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth.

19.9 Mae'r Contractiwr yn cydnabod ymhellach bod Estyn yn amodol ar rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf RhG a bod gofyniad ar Estyn i ymateb i geisiadau am wybodaeth a wneir o dan y Ddeddf RhG.

19.10 Bydd y Contractiwr, trwy gyflawni'r Contract, yn cefnogi'n weithredol ymrwymiad Estyn i'r Cod Gwybodaeth a'r Ddeddf RhG fel y gofynnir amdano'n rhesymol gan Estyn.

19.11 Lle mae Estyn yn rheoli cais am wybodaeth o dan y Ddeddf RhG a'i bod yn angenrheidiol ac yn briodol i Estyn ymgynghori â'r Contractiwr yn unol â'r *Cod Ymarfer ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Lleol o Dan Rhan 1 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* a wnaed o dan Adran 45 y Ddeddf RhG, bydd y Contractiwr yn ymateb i Estyn yn ddi-oed a chyn pen 5 (pump) Diwrnod Gwaith. Bydd o fewn disgresiwn Estyn yn llwyr pa wybodaeth y penderfynodd Estyn ei datgelu mewn ymateb i unrhyw gais.

19.12 Os oes cais am wybodaeth yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r Contractiwr, bydd y Contractiwr yn cysylltu ag Estyn ar unwaith er mwyn i Estyn benderfynu beth ddylai'r ymateb priodol fod.

19.13 Bydd darpariaeth Amod 19 yn gymwys tra pery'r Contract hwn ac ar ôl ei derfynu sut bynnag y bydd hynny'n digwydd.

19.14 Ni fydd y Contractiwr (neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Contract hwn) yn cyfeirio at PAEM, AEM, Estyn neu'r Contract mewn unrhyw hysbyseb heb gydsyniad ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw.

20 INDEMNIAD AC YSWIRIANT

20.1 Bydd y Contractiwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio Estyn, y Goron, a/neu ei Weinidogion, ei weision neu asiantiaid yn erbyn pob gweithred, hawliad, achos, iawndal, gorchymyn, cost (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gostau cyfreithiol), treuliau ac unrhyw atebolrwydd arall pa beth bynnag sy'n deillio o neu mewn cysylltiad â'r Contract a'r Contractiwr yn cyflawni neu heb fod yn cyflawni'r Contract mewn perthynas ag unrhyw farwolaeth neu anaf personol, neu golled neu ddifrod i eiddo a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan unrhyw weithred neu anwaith gan y Contractiwr.

20.2 Bydd y Contractiwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio Estyn yn erbyn pob colled, hawliad, iawndal, atebolrwydd, cost a thraul (gan gynnwys heb gyfyngiad costau cyfreithiol rhesymol) a geir ganddo mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri Amod 19 gan y Contractiwr.

20.3 Gydol cyfnod y Contract, bydd gan y Contractiwr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn grym. Bydd y cyfryw yswiriant yn cael ei weithredu gydag yswiriwr cyfrifol am y fath swm yswiriant y mae'r Contractiwr yn tybio sy'n briodol. Bydd y Contractiwr pa bryd bynnag y bydd yn ofynnol yn cyflwyno i Estyn y polisi neu bolisïau yswiriant a'r derbynebau am dalu'r premiymau cyfredol.

20.4 Lle bydd yn berthnasol i'r Amod hwn bydd y Contractiwr yn hysbysu Estyn ar unwaith os daw'n ymwybodol o unrhyw ffaith neu fater a allai Estyn yn agored i'w erlyn.

21 DAMWAIN NEU ANAF I'R CONTRACTIWR

21.1 Yn amodol ar gymal 21.3 ni fydd Estyn yn atebol am neu mewn perthynas ag unrhyw iawn neu iawndal sy'n daladwy mewn perthynas neu o ganlyniad i unrhyw ddamwain neu anaf i'r Contractiwr a bydd y Contractiwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio Estyn yn erbyn yr holl gyfryw iawn ac iawndal (oddieithr ac eithrio'r dywededig) ac yn erbyn pob hawliad, gorchymyn, achos, cost, gan gynnwys costau cyfreithiol, taliadau a threuliau pa beth bynnag mewn cyswllt â hynny neu mewn perthynas â hynny.

21.2 Yn amodol ar gymal 21.3, ni fydd cyfanswm atebolrwydd cyfun Estyn mewn perthynas â hawliadau ym mha fodd bynnag y codant o dan neu mewn cysylltiad â'r Contract (boed yn sgil torri'r Contract, torri dyletswydd statudol, camwedd (gan gynnwys esgeulustod) neu fel arall) ("Hawliad") mewn unrhyw amgylchiadau yn fwy na'r rhan honno o Bris y Contract a delir gan Estyn i'r Contractiwr yn unol â'r Contract ar y dyddiad y cododd y cyfryw Hawliad.

21.3 Bydd Estyn yn atebol am farwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i esgeulustod Estyn, ei gyflogeion, ei weision neu asiantiaid (ond ac eithrio'r Contractiwr) sy'n digwydd o ganlyniad i'r Contract hwn.

22 RHWYMEDIGAETHAU STATUDOL

22.1 Bydd y Contractiwr yn cydymffurfio â phob Deddfwriaeth berthnasol sydd mewn grym o dro i dro wrth gyflawni'r Gwasanaethau a rhwymedigaethau eraill yn unol â'r Contract gan gynnwys heb gyfyngiad, y rheiny'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a hylendid a'r rheiny dan ddeddfwriaeth mewn perthynas â chyflogaeth, cysylltiadau hiliol a gwahaniaethu rhywiol. Bydd y Contractiwr yn indemnio Estyn a'r Goron yn erbyn pob gweithred, hawliad, colled, gorchymyn, cost a thraul y gall Estyn eu dioddef neu eu cael o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri'r Amodau hyn.

23 TERFYNU

23.1 Bydd y Contractiwr yn hysbysu Estyn yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl yn ymarferol os cyflwynir deiseb ar gyfer methdaliad y Contractiwr, neu os gwnaiff unrhyw gyfansoddiad neu drefniant gyda neu er lles credydwyr, neu os gwnaiff unrhyw drawsgludiad neu neilltuad er lles credydwyr, neu os penodir gweinyddwr i reoli ei fusnes.

23.2 Bydd hawl gan Estyn derfynu'r Contract (heb fod yn atebol i dalu unrhyw iawndal i'r Contractiwr) gydag effaith ddioed:

(a) os yw'r Contractiwr yn hysbysu Estyn o unrhyw ddigwyddiad a restrir yn 23.1 uchod; neu

(b) os bydd y Contractiwr wedi torri'r Contract hwn ac (os oes modd gwneud iawn am y tor-amod) os bydd wedi methu gwneud iawn am y cyfryw dor-amod cyn pen 5 (pump) diwrnod y gofynnwyd iddo'n ysgrifenedig gan Estyn i wneud hynny; neu

(c) os yw'r Contractiwr yn marw neu'n cael ei ddyfarnu'n analluog i reoli ei fusnes o fewn ystyr Rhan VII Deddf Iechyd Meddwl 1983; neu

(d) os yw'r Contractiwr yn dioddef unrhyw nam meddyliol neu gorfforol neu anabledd sydd ym marn resymol Estyn yn ei atal rhag gallu cyflawni'r Gwasanaethau; neu

(e) os yw'r Contractiwr yn methu hysbysu'r Arolygydd Cofnodol cyn gynted â phosibl yn ymarferol yn unol ag Amod 13.3, lle mae achwynydd yn parhau'n anfodlon.

Os digwydd unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir yn (a) i (d) uchod, heb niweidio unrhyw un arall o'i hawliau, gall Estyn gwblhau'r Gwasanaethau neu beri bod trydydd parti yn eu cwblhau, gan ddefnyddio at y diben hwnnw (gan wneud lwfans teg a phriodol felly mewn unrhyw daliad a wneir wedi hynny i'r Contractiwr) yr holl ddeunyddiau a chyfarpar yn y Sefydliad sy'n eiddo i'r Contractiwr neu ei ystâd nes bod y Gwasanaethau wedi'u cwblhau yn unol â'r Gofynion, a bydd ganddo'r hawl i ddidynnu o unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Contractiwr y costau mewn perthynas â hynny a gafwyd gan Estyn (gan gynnwys costau Estyn ei hun). Os bydd cyfanswm y costau i Estyn yn fwy na'r swm (os oes) sy'n ddyledus i'r Contractiwr, gall Estyn adennill y gwahaniaeth gan y Contractiwr neu ei ystâd.

23.3 Yn ychwanegol at ei hawliau terfynu dan Amod 23.2, bydd hawl gan Estyn i derfynu'r Contract hwn yn ôl ei ewyllys trwy roi rhybudd ysgrifenedig nid llai na 15 (pymtheg) Diwrnod Gwaith i'r Contractiwr i'r perwyl hwnnw.

23.4 Ni fydd terfyniad o dan Amodau 23.2 neu 23.3 yn niweidio nac yn effeithio ar unrhyw hawl gweithredu neu adfer a fydd wedi cronni neu a fydd ar hynny yn cronni i Estyn ac ni fydd yn effeithio ar weithredu parhaus Amod 19.

23.5 Pe na bai angen y Gwasanaethau pan gynhelir yr Arolygiad yn sgil amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth Estyn, yna caiff y Contract ei derfynu ac ni fydd Estyn yn atebol i wneud unrhyw daliad i'r Contractiwr.

24 ADENNILL SYMIAU SY'N DDYLEDUS

24.1 Ble bynnag o dan y Contract hwn mae modd adennill unrhyw swm o arian gan y Contractiwr neu sy'n daladwy ganddo, gellir tynnu'r swm hwnnw o unrhyw swm sydd wedyn yn ddyledus, neu a all ddod yn ddyledus i'r Contractiwr yn

ddiweddarach o dan y Contract hwn neu o dan unrhyw gontract arall gydag Estyn, neu gydag unrhyw adran, asiantaeth neu awdurdod y Goron.

25 RHWYMEDÏAU

25.1 Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi i arfer unrhyw hawl, pŵer neu fraint o dan y Contract yn gweithredu fel ildiad ohono, ac ni fydd unrhyw arfer unigol neu rannol ohono'n atal unrhyw arfer pellach o unrhyw hawl, pŵer neu fraint o dan y Contract neu fel arall.

25.2 Mae'r Partïon yn cydnabod efallai na fydd iawndal yn rwymedi digonol pe ddigwydd achos o dorri'r Contract, ac yn unol â hynny bydd gan bob un o'r Partïon, (yn ychwanegol at unrhyw rwymedi neu rwymedïau eraill y gall fod ganddynt), yr hawl i geisio'r rhwymedïau gwaharddeb, perfformiad penodol a rhyddhad ecwitïol arall am unrhyw achos bygythiedig neu wirioneddol o dorri'r Contract gan y Parti arall, ac ni fydd prawf o iawndal arbennig yn angenrheidiol ar gyfer gorfodi'r Contract.

26 HYSBYSIADAU

26.1 Bydd unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad arall sydd yn cael ei roi neu ei wneud yn unol â'r Contract hwn yn ysgrifenedig a bydd yn cael ei roi drwy ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf dosbarthiad wedi'i gofnodi, trwy drosglwyddiad ffacs neu trwy law, os yw at Estyn, i:

Arweinydd Tîm: Contractau,
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd CF24 5JW
Ffacs: (029) 2044 6448

neu os at y Contractiwr, i'r cyfeiriad a bennir yn y Dystysgrif Tendro

neu i gyfeiriad arall y gellir ei hysbysu o dro i dro.

26.2 Bydd hysbysiadau'n cael eu rhoi drwy'r post yn effeithiol o'r cynharaf o dderbyn gwirioneddol a 2 (dau) Ddiwrnod Gwaith ar ôl postio oni chaiff ei ddychwelyd gan swyddfa'r post heb ei ddosbarthu. Bydd hysbysiadau'n cael eu dosbarthu â llaw yn effeithiol pan gânt eu dosbarthu. Tybir bod hysbysiadau'n cael eu rhoi drwy ffacsimili wedi'u derbyn y Diwrnod Gwaith ar ôl trosglwyddiad priodol a bod tystiolaeth ohono gan daflen cadarnhau'r trosglwyddiad nad yw'n dangos bod camgymeriad trosglwyddo a chyhyd bob tro â bod copi o'r hysbysiad yn cael ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf dosbarthiad wedi'i gofnodi i'r Parti sy'n derbyn ar ddiwrnod ei drosglwyddiad.

26.3 Gall y naill Barti i'r Contract newid ei gyfeiriad, ei rif ffôn, ei rif ffacsimili a chyswllt

enwebedig at ddibenion hysbysu trwy roi hysbysiad ysgrifenedig rhesymol ymlaen llaw i'r Parti arall am y wybodaeth newydd a'r dyddiad y daw'n effeithiol.

27 POLISI DIM YSMYGU

27.1 Bydd y Contractiwr yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw bolisi dim ysmygu sydd gan unrhyw Sefydliad ar waith.

28 TORADWYEDD

28.1 Os ceir bod unrhyw delerau, Amod, darpariaeth neu unrhyw ran o'r Contract hwn yn anghyfreithlon, yn annilys neu'n anorfodadwy i unrhyw raddau ni fydd y cyfryw delerau, Amod neu ddarpariaeth yn effeithio ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb neu orfodadwyedd y rhannau eraill o'r Contract hwn a fydd yn aros mewn grym ac effaith lawn.

29 GORFODAETH GAN DRYDYDD PARTI

29.1 Ni fydd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 yn gymwys i'r Contract hwn ac ni fydd unrhyw rai o'i delerau'n orfodadwy gan unrhyw drydydd parti.

30 Y GYFRAITH A RHEOLIADAU

30.1 Bydd y Contract hwn yn cael ei reoli gan gyfreithiau Cymru a Lloegr (fel y mae'n gymwys yng Nghymru).

30.2 Mewn perthynas â materion sy'n codi o dan Amod 13 (Cwynion) uchod, bydd y Partïon yn ddarostyngedig i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

30.3 Bydd y Contractiwr ym mhob mater sy'n codi wrth gyflawni'r Contract yn cydymffurfio â'r holl Ddeddfau Seneddol ac â'r holl orchmynion, rheoliadau ac is-ddeddfau a wneir gydag awdurdod statudol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu gan Awdurdodau lleol neu Awdurdodau eraill mewn grym o dro i dro a fydd yn gymwys i'r Contract.